Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Cefnogaeth i bleidleisio

Mawrth 2026


Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Pleidleisio hygyrch**



Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

Cefnogaeth i bleidleisio ........ 4

Yn eich gorsaf bleidleisio ........ 5

Cefnogaeth ychwanegol mewn gorsafoedd pleidleisio ........ 8

Pleidleisio drwy'r post ........ 11

Pleidleisio drwy ddirprwy ........ 12

Cynllunio ymlaen llaw ........ 14

Beth i'w wneud os oes gennych chi broblemau ........ 17

Mwy o gymorth ........ 18

# Cefnogaeth i bleidleisio



Mae yna wahanol ffyrdd rydych chi'n gallu cael help i bleidleisio.



Mae gennych chi'r hawl i bleidleisio'n breifat. Mae hyn yn meddwl na ddylai neb weld pwy rydych chi'n pleidleisio drosto oni bai eich bod chi eisiau iddyn nhw.



Rydych chi'n gallu gofyn i'ch cyngor am help cyn diwrnod yr etholiad.



Mae manylion cyswllt eich cyngor yma:
gov.uk/contact-electoral-registration-office


# Yn eich gorsaf bleidleisio




Gorsaf bleidleisio ydy'r lle rydych chi'n mynd i bleidleisio.




Mae gorsafoedd pleidleisio fel arfer mewn lleoedd fel llyfrgelloedd, ysgolion, a chanolfannau cymunedol.




Rhaid i chi fynd i'r orsaf bleidleisio sydd wedi ei henwi ar eich cerdyn pleidleisio.



Mae cardiau pleidleisio yn cael eu hanfon at bob pleidleisiwr cofrestredig.




Maen nhw'n gardiau bach sy'n dweud pa ddyddiad mae'r etholiad a ble mae eich gorsaf bleidleisio.

**Yn eich gorsaf bleidleisio rydych chi'n gallu:**



- Gofyn i'r bobl sy'n gweithio yno am help.



- Gofyn am le i eistedd os oes angen un.



- Dod â ffrind neu aelod o'r teulu i'ch helpu.



- Defnyddio eich ffôn i'ch helpu i ddarllen y papur pleidleisio. Er enghraifft, rydych chi'n gallu defnyddio ap testun-i-leferydd.

# Cefnogaeth ychwanegol mewn gorsafoedd pleidleisio

## Papurau pleidleisio print mawr





Mae papurau pleidleisio print mawr ym mhob gorsaf bleidleisio.



Gofynnwch i staff yr orsaf bleidleisio os ydych chi angen un.

## Dyfais bleidleisio cyffyrddol



Mae gan bob gorsaf bleidleisio ddyfeisiau pleidleisio cyffyrddol. Mae hon yn ddalen blastig sy'n ffitio dros eich papur pleidleisio. Mae rhifau rydych chi'n gallu eu teimlo arno.



Mae hyn yn gallu eich helpu i bleidleisio'n breifat os ydych chi'n ddall neu gyda cholled golwg.



Gofynnwch i staff yr orsaf bleidleisio os ydych chi angen un, ac am help i'w ddefnyddio.

## Dolen sain



Mae gan rai gorsafoedd pleidleisio systemau dolen sain.



Mae dolen sain yn system sain sy'n cefnogi pobl â chymhorthion clyw.



Rydych chi'n gallu gweld os oes gan eich gorsaf bleidleisio un yma: [Canfod gorsaf bleidleisio]

# Pleidleisio drwy'r post




Rydych chi'n gallu dysgu mwy am bleidleisio drwy'r post yma: Sut i bleidleisio drwy'r post.



Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddyn nhw i'ch helpu.



Rydych chi'n gallu gofyn i rywun bostio'ch pleidlais i chi.



Rhaid i chi beidio â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio eich pleidlais bost.


# Pleidleisio drwy ddirprwy




Rydych chi'n gallu dysgu mwy am bleidleisio drwy ddirprwy yma: Sut i bleidleisio drwy ddirprwy.




For the Senedd election on Thursday 7 May 2026, you must ask for a proxy vote by **5pm ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026**.




Rydych chi'n gallu gofyn am bleidlais dirprwy mewn argyfwng erbyn 5pm ar ddiwrnod yr etholiad.



Dim ond am reswm da rydych chi'n gallu cael dirprwy mewn argyfwng. Er enghraifft, oherwydd eich bod yn yr ysbyty neu'n sâl iawn.



Cysylltwch â'ch cyngor os ydych chi angen dirprwy mewn argyfwngh.



Mae manylion cyswllt eich cyngor yma:
gov.uk/contact-electoral-registration-office

## Gorsafoedd pleidleisio




Rydych chi'n gallu edrych I weld os ydy eich gorsaf bleidleisio yn hygyrch. Er enghraifft, rydych chi'n gallu edrych i weld os oes ganddo:

- Mynediad i gadeiriau olwyn
- Rampiau
- Toiledau hygyrch
- Parcio
- Dolen sain
- Mynediad heb risiau



Edrychwch ar-lein yma: Canfod gorsafoedd pleidleisio

## Eich cyngor



Gallwch ofyn i'ch cyngor am help cyn diwrnod yr etholiad. Mae eich cyngor yn gallu:

- Gwneud yn siŵr bod gennych beth rydych chi ei angen i'ch helpu i bleidleisio.
- Ateb gwestiynau am eich gorsaf bleidleisio.
- Helpu chi i gynllunio eich ymweliad â'r orsaf bleidleisio.



Mae manylion cyswllt eich cyngor yma:
gov.uk/contact-electoral-registration-office

## Eich hawliau




Mae gennych yr hawl i:



- Pleidleisio a gwneud eich penderfyniadau eich hun.



- Pleidleisio yn breifat. Ddylai neb edrych arnoch chi pan fyddwch chi'n pleidleisio, dweud wrthych chi pwy i bleidleisio drostyn nhw, neu ysgrifennu ar eich papur pleidleisio os nad ydych chi'n gofyn iddyn nhw.



- Gofyn am help gyda phleidleisio. Mae staff yr orsaf bleidleisio wedi'u hyfforddi i'ch helpu a pharchu eich pleidlais.



- Dod â rhywun i'ch helpu chi i bleidleisio. Fel ffrind, aelod o'r teulu neu ofalwr. Rhaid i'ch cynorthwyydd fod dros 16 oed. Dim ond 1 pleidleisiwr maen nhw'n gallu ei helpu, a dydyn nhw ddim yn gallu bod yn rhan o'r etholiad mewn unrhyw ffordd.

# Beth i’w wneud os oes gennych chi broblemau



Os oes gennych chi broblemau wrth geisio pleidleisio:




- Siaradwch â staff yr orsaf bleidleisio.



- Cysylltwch â’ch cyngor.




- Rhowch wybod am eich problem i’r Comisiwn Etholiadol. Y Comisiwn Etholiadol ydy’r sefydliad sy’n gwneud yn siŵr bod etholiadau’n cael eu rhedeg yn deg ac yn dda.

# Mwy o gymorth

**Rydych chi'n gallu cael rhagor o gymorth gan:**




- **Y Comisiwn Etholiadol** - y sefydliad sy'n gwneud yn siŵr bod etholiadau'n cael eu rhedeg yn deg ac yn dda. Ewch i'w gwefan yma: Y Comisiwn Etholiadol



- **Eich cyngor lleol** – mae manylion cyswllt eich cyngor yma: gov.uk/contact-electoral-registration-office



- **Sefydliadau pobl anabl**– fel Scope, RNIB, and Sense.



- **Canllawiau i ofalwyr** – canllaw sydd wedi cael ei wneud gan y Comisiwn Etholiadol ar gyfer gofalwyr sy'n cefnogi pobl i bleidleisio.